Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau ar 4 Gorffennaf 2023 am 7.30 pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Janine Roberts (yn y Gadair) Aled Williams, Marged Bowen, Roger Thomas, John Williams, Rhys Williams, Jane Morgan (a oedd hefyd yn gweithredu fel Clerc) a'r Cynghorydd Sir Fiona Walters.
Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
Addaswyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 i gynnwys "diolchodd Marged Bowen i Jane Morgan am gyflawni dyletswyddau'r Clerc yn ddi-dâl am y 12 mis diwethaf" ac yna fe'u cafwyd yn gywir. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 27.06.2023 yn gywir.
Materion yn codi.
Trafodwyd symud y toiledau cludadwy a'r bwrdd picnic o gae sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin.
Trafodwyd llythyr gwrthwynebiad drafft arfaethedig a baratowyd gan Marged Bowen at Mr Mark Drakeford, a'i ddiwygio'n briodol.
Gwiriadau a Hyfforddiant ar gyfer y Diffibrilwyr. Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Emily yn nodi bod y tri diffibriliwr wedi cael eu gwirio ac nad oedd yna unrhyw broblemau i'w hadrodd. Dywedodd Emily fod yr wybodaeth y mae'r British Heart Foundation yn ei rhoi i'r rhai sy'n gwirio diffibrilwyr yn nodi y dylai Althea fod â rasel a siswrn bob un. Mae hyn i helpu i gael mynediad i frest y claf. Bydd Jane Morgan yn trafod hyn ymhellach ag Emily.
Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Wayne Edwards o Ambiwlans Sant Ioan Cymru yn nodi y gallai drefnu sesiwn dwyawr ar Ymwybyddiaeth o CPR a Diffibrilwyr, ac y byddai hyn yn rhad ac am ddim. Y dyddiad cynharaf y gallai ei drefnu oedd 26.08.23 neu 02.09.23. Cytunwyd y dylid archebu'r ysgol ar gyfer 02.09.2023 (yn y prynhawn yn ddelfrydol), ac y dylai hysbysiadau gael eu gosod ar y dudalen Facebook, ar y Wefan, yn Hysbysfyrddau'r Cyngor a'r tu allan i'r ysgol.
Y Rheoleiddiwr Pensiynau. Roedd Jane Morgan wedi siarad ag aelod o'r staff, a bydd hyn yn cael ei gau am y tro gan nad oes unrhyw un wedi'i gyflogi. Bydd angen ailgofrestru pan gaiff rhywun ei gyflogi.
Plac ar gyfer y Fainc i nodi Jiwbilî y Frenhines. Cafwyd pris o £77.99 gan Chris y Crydd. Cytunwyd i symud ymlaen â hyn.
Archwilio'r Fynwent. Y dyddiad i'w drefnu.
Y Cyfriflenni Banc Diweddaraf a Cheisiadau am Dâl. Balans y Cyfrif ar 28.06.2023 oedd £12,039.69. Cytunwyd i dalu'r canlynol: Torri Glaswellt y Fynwent, M&J Maintenance: £600.00. Cytunwyd hefyd y gallai taliad mis Gorffennaf o £600.00 gael ei dalu ym mi Awst pan ddeuai'r anfoneb i law.
Rheolau Sefydlog Diwygiedig. Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol ac Atodlenni Asesiadau risg i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a thrwy e-bost. Trafodwyd y canlynol:
Oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, Adolygiad Cymunedol o'r holl Gynghorau Tref a Chymuned, Ardal Cyngor Sir Caerfyrddin – Cyhoeddi Cynigion Drafft.
Y trefniadau arfaethedig i gyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig a'r eithriadau o ran 30mya.
Clerks & Councils Direct.
Cynllunio
PL/06048 – Dileu Amod 2 yn achos P6/22/4672/78 (Dylid cyfyngu deiliaid yr annedd arfaethedig i unigolion sy'n cael eu cyflogi'n gyfan gwbl neu'n sylweddol ym maes amaethyddiaeth ar yr uned fferm y mae'r annedd yn gysylltiedig â hi, ac i ddibynyddion unigolyn o'r fath) – Maes y Castell, Capel Isaac, Llandeilo SA19 7EN. Dim gwrthwynebiadau.
Nid oedd yna unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.10 p.m.
Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn yr Ysgol nos Fawrth 5 Medi 2023 mewn 7.30 p.m.